# Prawf Meddygol Amddiffyn Plant – Profion

# Gwybodaeth i Rieni

Fel yr eglurir yn y daflen *Prawf Meddygol Amddiffyn Plant - Gwybodaeth i Rieni*, efallai y bydd angen i'ch plentyn gael rhai profion meddygol. Mae'r daflen hon i'ch helpu i ddeall yr hyn maent yn ei olygu.

**Pa brofion fydd fy mhlentyn yn eu cael a pham?**

*(Nodyn i'r meddyg: ticiwch fel y bo'n briodol)*

Mae hyn yn dibynnu ar oedran eich plentyn, y rheswm pam y mae angen ei weld, a'r hyn a ddaw i'r amlwg wrth i'r meddyg gynnal archwiliad.

**Profion gwaed** ☐

Rydym yn cynnal profion gwaed i chwilio am unrhyw reswm meddygol dros anaf neu broblemau eich plentyn. Efallai y bydd y meddyg yn defnyddio hufen neu chwistrell anesthetig lleol i leihau unrhyw anghysur neu ofid.

**Profion llygaid** ☐

Os yw eich plentyn dan ddwy oed, efallai y bydd angen archwiliad llygaid arno gan arbenigwr (offthalmolegydd) gan ddefnyddio offer arbennig. Mae hyn er mwyn chwilio am unrhyw ganfyddiadau perthnasol yng nghefn y llygad. Efallai y bydd angen diferion llygaid ar eich plentyn i helpu'r meddyg i weld cefn y llygad yn gliriach. Ni ddylai'r archwiliad hwn fod yn boenus, ond bydd gofyn i'ch plentyn aros yn llonydd ac efallai y bydd yn rhaid ei ddal yn gadarn er mwyn cynnal y prawf.

**Ffotograffiaeth feddygol** ☐

Os oes gan eich plentyn unrhyw farciau gweladwy neu gleisiau mae'n bosibl y caiff lluniau meddygol eu tynnu a fydd yn cael eu cadw fel rhan o'i gofnod iechyd.

**Sgan CT o'r pen** ☐

Os oes pryder y gallai fod gan eich plentyn anaf i'w ben, bydd angen iddo gael sgan o'i ben. Mae'r sgan hwn yn ddi-boen ac fel arfer mae'n cymryd tua phum munud i'w gyflawni. Mae'n defnyddio pelydrau-x ac felly bydd eich plentyn yn dod i gysylltiad ag ychydig bach o ymbelydredd. Rydym i gyd yn dod i gysylltiad ag ychydig bach o ymbelydredd yn ddyddiol.

Fodd bynnag, gall dosau uchel o ymbelydredd, neu gysylltiad estynedig neu ailadroddus i ymbelydredd, fod yn beryglus. Mae risg ymbelydredd o un sgan CT yn fach ac mae'n hanfodol dod o hyd i unrhyw anafiadau i'r pen a'u trin yn briodol.

**Arolwg ysgerbydol** ☐

Os yw eich plentyn dan ddwy oed, neu os yw'n hŷn a bod ganddo unrhyw anafiadau corfforol sylweddol neu sy’n achosi pryder, efallai y bydd angen arolwg ysgerbydol arno. Dyma gyfres o belydrau-x o'r esgyrn sy'n chwilio am doriadau (a elwir hefyd yn dorasgwrn). Mae'n cymryd o leiaf 30 munud i'w gwblhau. Ni ddylai'r archwiliad hwn fod yn boenus, ond efallai y bydd yn rhaid i'ch plentyn gael ei ddal yn gadarn yn ei le i gynnal y prawf. Mae'r arolwg ysgerbydol yn digwydd mewn dau gam, gydag ail gyfres o belydrau-x yn digwydd 10 i 14 diwrnod ar ôl y cyntaf.

**Sganiau eraill** ☐ *Nodwch ......................................................................................*

Efallai y bydd angen sganiau eraill, er enghraifft MRI. Bydd y meddyg yn trafod hyn â chi yn gyntaf.

Efallai y bydd yn cymryd ychydig ddyddiau i gwblhau'r holl brofion a chael yr holl ganlyniadau. Bydd unrhyw oedi yn cael ei egluro i chi. Os canfyddir bod gan eich plentyn unrhyw anghenion gofal iechyd, bydd y meddyg yn eich cynghori ar yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf.

Lefel Gradd Flesch Kincaid 7.8

Rhwyddineb Darllen Flesch 68.1